

TYMHORAU'R FLWYDDYN

(Oedfa Ddiolchgarwch)

Llefarydd:

'Rhowch i'r Arglwydd anrhydedd ei enw, dygwch offrwm a dewch i'w gynteddoedd.

Ymgrymwch i'r Arglwydd yn ysblander ei sancteiddrwydd; crynwch o'i flaen, yr holl ddaear.

Bydded y nefoedd yn llawen a gorfoledded y ddaear,

Oherwydd mawr yw'r Arglwydd, a theilwng iawn o fawl.'

Cyd-weddiwn:

Diolchwn i ti, ein Tad, am anogaeth dy Air i'th addoli, ac i ddiolch i ti am holl fendithion bywyd. Cynorthwya ni i wneud yn fawr o'n cyfle i wneud hynny yn ein hoedfa ddiolchgarwch, ac i ymateb i gymhellion dy gariad a'th ras. O Dad, yn dy drugaredd dyro dy help hefyd i bawb sy'n cymryd rhan, a llanw ni oll ag ysbryd diolchgarwch i ti. Gofynnwn hyn yn enw ein Harglwydd Iesu Grist. Amen.

Emyn: 117 – *Datganaf dy glod*

Llefarydd:

Mae bendithion y flwyddyn yn amrywio'n fawr iawn o dymor i dymor, a'r hyn a wnawn heddiw yw dwyn i gof fendithion y pedwar tymor, a rhoddi diolch i Dduw am ei ofal ohonom.

Dechreuwn gyda'r Gwanwyn, tymor y deffro a'r bywyd newydd; yna yr Haf, tymor y ffrwytho a'r tywydd braf. Awn ymlaen i'r Hydref, tymor cwmp y dail a gwasanaethau diolchgarwch ac, yn olaf, y Gaeaf, tymor y tywydd garw, ac edrych ymlaen at y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd a'r Gwanwyn unwaith eto.

Yn nhymor y Gwanwyn, mae'r ddaear yn deffro ar ôl cwsg hir y Gaeaf, ac yn gollwng o'i phridd fywyd newydd. Ceir nifer o gyfeiriadau at y Gwanwyn a'i dyfiant newydd yn y Beibl. Gadewch inni wrando ar rai ohonynt.

Darllenriad:

‘Dyweddodd Duw, “Dyged y ddaear dyfiant, llyisiau yn dwyn had, a choed ir ar y ddaear yn dwyn ffrwyth a had ynddo, yn ôl eu rhywogaeth.” Ac felly y bu.

Er i goeden gael ei thorri, y mae gobaith iddi ail flaguro, ac ni phaid ei changhennau â thyfu. Er i’w gwraidd heneiddio yn y ddaear, ac i’w boncyff farweiddio yn y pridd, pan synhwyra ddŵr, fe adfywia, ac fe flagura fel planhigyn ifanc.

Cod yn awr, f’anwylyd, a thyrd, fy mhrydferth; oherwydd edrych, aeth y gaeaf heibio, ciliodd y glaw a darfu; y mae’r blodau’n ymddangos yn y meysydd, daeth yn amser i’r adar ganu, ac fe glywir cân y durtur yn ein gwlad; y mae’r ffigysbren yn llawn ffigys ir, a blodau gwinwydd yn gwasgaru aroglau peraidd.’

Llefarydd:

Mae’n siŵr fod yr adnodau a ddarllenwyd yn codi hiraeth arnom am y gwanwyn – tymor y deffro a’r bywyd newydd. Mewn ambell ardal yn Nyfed, arferai yr hen bobl gynnal gwasanaeth diolchgarwch ym mis Mai, a hynny er mwyn diolch ymlaen llaw am y cynhaeaf. Onid yw hyn yn rhagori ar ddiolch ym mis Hydref? Y mae diolch i Dduw ym mis Hydref, ar ôl cael, yn dangos cwrteisi ac ysbryd diolchgarwch, ond y mae diolch **cyn cael** ym mis Mai yn dangos ysbryd ffydd yn Nuw, ac ymddiriedaeth yn ei ofal ohonom i’r dyfodol. Mynegir hyn yn ardderchog gan yr emynydd:

*‘Nyni sy’n troi y meysydd,
Nyni sy’n hau yr had;
Ond Duw sy’n rhoi y cynnydd,
Gwres a chafodau mad:
Er meithrin y dywysen,
Fe ddenfyn wynt a glaw:
Y tes a’r oerni hefyd –
Pob peth oddi wrtho ddaw.’*

Ond wrth fynegi hyn gyda'r emynydd, rydym yn ymwybodol ei bod yn rhwydd iawn i ni ddiolch ymlaen llaw am fendithion tymhorol y greadigaeth. Ni fethodd y gwanwyn erioed â chyflawni'i addewid i ni yng Nghymru. Nid ydym yn gwybod yn ein gwlad ni am y profiad trist o weld yr had a heuwyd yn methu ac yn marw. Pan ddigwydd hyn, mae'r canlyniadau'n aml yn arswydus, a phobl yn marw wrth y miloedd o eisiau bwyd. Am hynny, yn ein gwasanaeth diolchgarwch nac anghofiwn angen ein cyd-ddynion na gorchymyn Iesu Grist i ni ei ddilynwyr i fwydo'r newynog.

Llefarydd:

Fel beirdd Israel gynt, mae beirdd Cymru hefyd wedi canu am y gwanwyn. Gŵr a wnaeth hynny oedd yr emynydd, T. Rowland Hughes:

*'Tydi, a roddaist liw i'r wawr
A hud i'r machlud mwyn,
Tydi, a luniaist gerdd a sawr
Y gwanwyn yn y llwyn ...'*

Ond nid yn y llwyn y gwelwn wanwyn cariad Duw ar ei orau, ond ym mherson ei Fab Iesu Grist. Dwyn tystiolaeth y mae tymhorau'r flwyddyn i ddaioni Duw'r Creawdwr tuag atom, ond dwyn tystiolaeth y mae'r Efengyl i ogoniant cariad Duw tuag atom, a'r modd y'n carodd ni i'r eithaf yn ei Fab ar groes Calfaria.

Eto eleni cawsom gyfle yn nhymor y gwanwyn i gofio'n ddiolchgar aberth cariad Iesu Grist ar y groes, a chyfle hefyd i ddathlu'n llawen fuddugoliaeth ei gariad fel y'i datguddiwyd mor ogoneddus ar fore'r trydydd dydd. Tymor i godi calon dyn yw'r gwanwyn, ac wrth weld bywyd newydd yn y greadigaeth, a phrofi gwefr atgyfodiad Iesu Grist yn ein calonnau, ni allwn fel Cristnogion ond torri allan i ganu gyda'r emynydd:

*'Mae'r Halelwia yn fy enaid i,
A rhoddaf, Iesu, fy mawrhad i ti.'*

Cyd-weddiwn:

Diolchwn, ein Tad, am bob arwydd o ysbryd y gwanwyn yn ein heglwysi, ac am bawb sy'n ymateb i wres dy gariad achubol yn Iesu Grist. Gweddiwn am adfywiad ysbrydol unwaith eto yn ein plith, ac am nerth yr Ysbryd Glân i orchfygu oerwynt anghrediniaeth yn ein gwlad.

*'Anadla, lôr y Gwanwyn,
Fel awel dros ein tir,
I ail ddihuno Cymru
O gwsg Gaeafau hir.'*

Erfyniwn arnat hefyd i gofio'r ifanc a'u cadw rhag syrthio'n ddiniwed i faglau'r oes. Yn dy drugaredd, bendithia ein teuluoedd, a derbyn ein clod, oherwydd eiddot ti yw y deyrnas, a'r nerth a'r gogoniant, yn awr ac yn oes oesoedd. Amen.

Emyn: 130 – *Pob peth, ymhell ac agos*

Llefarydd:

O'r pedwar tymor, yr haf yw'r ffeffryn gan lawer ohonom. Hwn yw tymor y tywydd braf, a chyfle i lawer ohonom fwynhau ychydig o seibiant a gwyliau oddi cartref. Beth sy'n fwy dymunol na theimlo cynhesrwydd haul Gorffennaf ar ein cyrff, a hefyd gweld machlud haul ym mis Medi? Ac ambell flwyddyn, fe gawn yn ychwanegol 'haf bach Mihangel' i goroni'r cyfan, fel y dywed y bardd, Alun Jones:

*'I fyny'r dyffryn fe'i gwelais yn dod
Mor debyg i'r haf ag y gallai fod.'*

Yn y Beibl, fe briodolir holl fendithion y greadigaeth i ddaioni Duw, ac yn ein darlleniad nesaf fe gawn y salmydd yn mynegi hynny yn hyfryd iawn.

Darlleniad: Salm 65: 9–13

Llefarydd:

Y mae nifer o wledydd yn cael mwy o haul na ni yma yng Nghymru, ac ambell flwyddyn, pan fydd y tywydd yn siomedig, rydym yn dyheu am haf sych a chynnes. Ond fel y gŵyr pobl y gwledydd poeth, mae haf diddiwedd yn achosi prinder dŵr a diffyg tyfiant. Yn wir, y mae hyn yn digwydd yn aml iawn yn rhai o wledydd ein byd, lle mae'r ddaear yn goch ac yn galed, a dim tyfiant a glesni naturiol i'w gweld yn unman. Felly, er ein bod yn teimlo y cawn ormod o law a dim digon o haul, ni ddylem gwyno o gwbl, ond dilyn cyngor y cwpld:

*'Diolchwn fwy a chwynwn lai,
Mae'r naill yn ras a'r llall yn fai.'*

Mae Cymru yn wlad hardd iawn, ac yn nhymor yr haf gwelsom eto eleni ei dyffrynnoedd a'i bryniau'n diferu o lawnder bendithion ein Creawdwr. Gorffennwn ein sylwadau am dymor yr haf gyda'r ddwy adnod ganlynol:

'Dysgwch wers oddi wrth y ffigysbren. Pan fydd ei gangen yn ir ac yn dechrau deilio, gwyddoch fod yr haf yn agos.'

'Y mae ef yn peri i'w haul godi ar y drwg a'r da.'

Cyd-weddiwn:

Diolchwn i ti, ein Tad, am dymor yr haf ac am awyrgylch fendithiol dy greadigaeth ym misoedd Gorffennaf ac Awst pan fo'r coed yn eu gogoniant, y blodau yn eu gwisgoedd gorau, a'r caeau o'n cwmpas yn llawn porfa a bwyd i ddyn ac anifail.

Diolchwn i ti am harddwch ein gwlad – ei dyffrynnoedd ffrwythlon a'i hafonydd croyw, ei llynnoedd llonydd a'i mynyddoedd geirwon, ac aruthredd y môr yn golchi ei glannau. O Dduw, rho inni lygaid i ryfeddu at harddwch dy greadigaeth, a chalon i werthfawrogi'r cyfan mewn diolchgarwch i ti.

Diolchwn am wyliau'r haf a gawsom i ymryddhau o gyfrifoldeb gwaith, ac i atgyfnerthu'n gorfforol, yn feddyliol ac yn ysbrydol. *'Y mae tymor i bob peth, ac amser i bob gorchwyl dan y nef,'* medd dy Air

wrthym. O Dad, boed inni gofio hyn yn wastad, a threfnu ein bywyd yn unol â'th ewyllys di, ac mewn ysbryd diolchgar. Er mwyn ein Gwaredwr Iesu Grist. Amen.

Emyn: 93 – *Arglwydd mawr y nef a'r ddaear*

Llefarydd:

Deuwn yn awr at dymor yr hydref. Hwn yw tymor cwmp y dail a'r gwasanaethau diolchgarwch, a phan fydd y dyddiau'n cau gan nosweithiau hir o dywyllwch. Daw'r tymor hwn hefyd â'i wyntoedd cryfion a'i law di-baid, ond y mae i dymor yr hydref hefyd ei apêl a'i dlysnï. Tystiolaeth rhyw hen wŷr ar ei weddi oedd:

'Mae dy greadigaeth di yn brydferth mewn marwolaeth hyd yn oed.'

Ie, tymor y gwywo a'r dadfeilio yw'r hydref, ac mae natur yn gwneud hynny'n hardd iawn, fel y tystiodd y bardd T. Gwynn Jones:

*'Gwelais fedd yr haf heddiw, –
Ar wŷdd a dail, hardded yw
Ei liwiau fyrdd, olaf ef,
Yn aeddfedrwydd lleddf Hydref.'*

Tebyg yw'r geiriau canlynol hefyd:

*'Edrych, er prudedd Hydref,
Onid hardd ei fynwent ef?'*

Y mae hyn yn ein tywys i holi ynghylch hydref ein bywyd. Onid profiad llawer ohonom ar ôl cyrraedd yr hanner cant yw gweld tymhorau ein bywyd yn gwibio heibio? Y mae hyn yn naturiol yn ein difrifoli ac yn ein gorfodi i sylweddoli na fyddwn yma am byth. Ond, i'r Cristion, nid tymor y disgwyl anochel yw hydref bywyd, ond tymor yr ymddiriedaeth dawel y bydd Duw gyda ni bob cam o'r daith.

Gŵr a gafodd fyw i oedran teg oedd Elfed, yr emynydd. Un tro, wrth wrando ar lanc ifanc yn cwyno'n fawr ar ei fyd, dywedodd Elfed:

'Rwyf wedi gweld naw deg blwyddyn o aeafau bywyd, ond cofia, rwyf wedi gweld hefyd naw deg blwyddyn o hafau bywyd.'

Yn ei henaint, roedd Elfed yn ddall, ond ni fu hynny'n rhwystr iddo rhag gweld a gwerthfawrogi bendithion bywyd. Boed i Dduw ein llenwi ninnau hefyd ag ysbryd diolchgarwch, ac ysbryd ymddiried na all dim *'ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd'*.

Cyd-weddiwn:

Diolchwn i ti, ein Tad, am dymor yr hydref. Cydnabyddwn mai ti sy'n llunio pob tymor yn ei dro, ac yn sicrhau fod i'r tymhorau i gyd eu bendithion ar ein cyfer. Diolchwn am brydferthwch dy greadigaeth yr adeg hon o'r flwyddyn, pan fo dail y coed yn gwywo mor hardd, a'r barrug yn cuddio'r ddaear â'i blanced wen.

*'Diolchwn am erwinder hydref
A'i brydferthwch dros ein gwlad:
Ffrwyth y maes a gwynfyd cartref
Ddaeth o'th ddwylo di, ein Tad.'*

O Dad, derbyn felly ein diolch am yr hyn a fuost inni,
yn llaw estynedig i'n cynnal a'n cadw,
yn glust i'n cri yn awr argyfwng,
yn llygad i'n gwyllo rhag niwed,
yn llais cydwybod pan bechasom i'th erbyn, ac
yn gri o'r galon arnom i ddychwelyd i lwybrau dy ras.
O Dad, derbyn hefyd ein diolch am yr hyn a fyddi eto inni i'r dyfodol,
yn oleuni i'n tywys allan o'r tywyllwch,
yn nerth i'n galluogi i wrthwynebu temtasiynau, ac
yn rym cariad o'n mewn i fyw er mwyn Iesu Grist.

Gweddiwn dros ein cyd-fforddolion, ac yn arbennig y rhai sydd ar fin cyrraedd pen y dalar. O Dad, anwyla hwy â'th gariad, a chadw eu meddyliau a'u calonnau yng Nghrist Iesu ein Harglwydd. Yn dy drugaredd, dysg i ninnau hefyd gyfrif ein dyddiau, fel y dygom ein calonnau i ddoethineb, ac i brofiad o'th ras yn Iesu Grist. Amen.

Emyn: 212 – *Arnom gweina dwyfol Un*

Llefarydd:

Rydym yn cloi ein myfyrdod heddiw gyda sylwadau am dymor y gaeaf. Disgrifiwyd y gaeaf fel llofrudd yn lladd y gwan, ac fel llwynog yn sugno einioes yr hen. Y mae rhai cyfeiriadau at y gaeaf yn y Beibl. Tybed a ydych yn gwybod ym mha lyfrau o'r Beibl y ceir yr adnodau canlynol?

'Ti a osododd holl derfynau daear, ti a drefnodd haf a gaeaf.'

'Yna daeth amser dathlu gŵyl y Cysegru yn Jerwsalem. Yr oedd yn aeaf, ac yr oedd Iesu'n cerdded yn y deml, yng Nghloestr Solomon.'

'A chan ei bod yn oer, yr oedd y gweision a'r swyddogion wedi gwneud tân golosg, ac yr oeddent yn sefyll yn ymdwymo wrtho. Ac yr oedd Pedr yntau yn sefyll gyda hwy yn ymdwymo.'

'Gwna dy orau i ddod cyn y gaeaf.'

Llefarydd:

Nid yw'r gaeaf â'i wlybaniaeth a'i oerni gwyn yn ffefryn gan lawer ohonom. Y mae'r tywydd oer a rhewllyd yn gadael ei ôl yn drwm ar ddydd ac anifail, ac eto ceir arwyddion gobaith hyd yn oed ym mis Ionawr. Mae'r dyddiau'r adeg hynny yn dechrau ymestyn, ac erbyn diwedd mis Ionawr, ymwithia'r eirlysiau yn ddewr allan o'r pridd, ac yn fuan wedyn, daw'r saffrwm melyn i'r golwg. Yn sicr, nid oes dim yn aeafol yn lliw'r blodyn hwn, ac o'i weld daw gobaith drachefn am dymor y gwanwyn. Mor wir yw geiriau'r bardd:

*'Mae Ionawr ar y mynydd – a gwelwch
Yw golwg y meysydd;
Ond daw yn newid tywydd
Ac yn y fan, gwanwyn fydd.'*

Onid yw'n arwyddocaol mai yn nhymor y gaeaf yr ydym yn dathlu geni Iesu Grist? Fel yr awgrymwyd eisoes, nid yw llawer ohonom yn edrych

ymlaen at dymor y gaeaf ond, fel Cristnogion, y mae gennym wyl fawr yr Ymgawdoliad i edrych ymlaen ati, pan ycawn gyfle i ddiolch am rodd pennaf Duw i ddyn:

‘Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy’n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.’

Gadewch inni felly eto eleni ymateb yn ddiolchgar i Dduw y tymhorau bendithiol, a rhoi diolch iddo yn fwy na dim am ei gariad achubol tuag atom yn Iesu Grist.

*‘Diolchaf am dy gariad cu
Yn estyn hyd fy oes;
Diolchaf fwy am Un a fu
Yn gwaedu ar y groes.’*

Er mwyn ei enw. Amen.

Emyn: 64 – *Tydi sy deilwng oll o’r cân*

Y Fendith:

I’n Duw ni y bo’r mawl
a’r gogoniant a’r doethineb a’r diolch
a’r anrhydedd a’r gallu a’r nerth byth bythoedd!
Amen.